Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
Heol yr Eglwys
Gorslas
Sir Gaerfyrddin
SA14 7NF

04/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un agwedd a gytunwyd gyda'r pennaeth. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Miniogi prosesau hunanwerthuso gan graffu ar safonau dysgwyr, a monitro a gwerthuso'r addysgu a'r dysgu yn fwy effeithiol

- Mae'r pennaeth wedi sefydlu amserlen fonitro gynhwysfawr er mwyn sicrhau trawstoriad defnyddiol o weithgareddau monitro a gwerthuso trwyadl.
- Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi ehangu'r tîm arwain gan rannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. Mae hi wedi darparu hyfforddiant arweinyddiaeth i'r arweinwyr newydd ac i athrawon yn fwy helaeth. Mae hyn wedi gwella ansawdd y gweithgareddau monitro gan sicrhau bod y staff yn craffu ar dystiolaeth yn fwy effeithiol. Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n fanwl ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.
- Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos ag arweinwyr tair ysgol arall i gefnogi eu prosesau monitro a rhannu arfer dda. Mae hyn yn cynnwys ymweld â'r ysgolion er mwyn arsylwi ar yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, mae prosesau hunanwerthuso wedi datblygu'n fwy cadarn gan ddarparu gwybodaeth ddibynadwy ar gyfer dathlu arfer dda a phennu blaenoriaethau gwella.

- Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel o ran rôl y llywodraethwyr ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Yn dilyn awdit o'u sgiliau, mae wedi sicrhau bod gan bob un ohonynt gyfrifoldebau yn ymwneud â monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn ei blaenoriaethau. Maent yn ymweld yn rheolaidd er mwyn ystyried ffynonellau tystiolaeth gwahanol, ac yn adrodd eu harsylwadau i'r tîm arweiniol ac i'r corff llywodraethol llawn.
- Erbyn hyn, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr a chywir am gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi a herio arweinwyr yn effeithiol sy'n aml yn arwain at gryfhau gweithdrefnau a darpariaeth yr ysgol.

## Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd i'r lefel briodol mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r arweinwyr cwricwlwm yn cydweithio'n agos er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth yn drylwyr ac yn rhannu eu canfyddiadau â'r llywodraethwr dynodedig a'r tîm arwain. Maent wedi trefnu dysgu proffesiynol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu hyder staff a chysoni eu gwaith.
- Mae arweinwyr yn craffu ar gynlluniau'r athrawon ac ar waith disgyblion er mwyn adnabod elfennau sy'n gyson, a'r agweddau penodol sydd angen eu datblygu ymhellach.
- Yn  nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, defnyddir yr amgylchedd dysgu'n fedrus i hybu dealltwriaeth gynnar disgyblion o werth rhif. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n hyderus. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae'r dull carwsel a'r heriau wythnosol yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu hyder wrth ymarfer eu gwahanol fedrau rhif mewn cyd-destunau diddorol.
- Ar adegau, darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau a ddatblygwyd mewn gwersi mathemateg mewn cyd-destunau go iawn. Mae arweinwyr yn datblygu proses o gynllunio gweithgareddau ymarferol sy'n caniatáu i'r disgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau dilys, lleol.
- Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn gweithgareddau mathemateg sy'n eu herio'n addas.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692007

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol